Mae'r termau hyn yn disgrifio **mudiant** of a corff:

1. Disymud
2. Buanedd cyson neu gyflymder
3. Cyflymiad
4. Arafiad

*Cofiwch: **Cyflymder** yw'r buanedd mewn **cyfeiriad** penodol.*

Mae mudiant yn cael ei ddisgrifio drwy ddefnyddio graffiau pellter-amser a graffiau cyflymder-amser. Mae'n bwysig gweithio allan pa fath o fudiant ydyw cyn i chi ddechrau disgrifio'r graff gan fod y siapiau'n cynrychioli pethau gwahanol ar bob math. **Edrychwch am y labelu ar yr echelinau er mwyn eich helpu i adnabod y graff.**

Mudiant	Pellter-amser	Cyflymder-amser
Disymud		
Buanedd cyson		
Cyflymiad		
Arafiad		

Cyfrifo buanedd (neu gyflymder)

$$\textit{cyflymder (m/s)} = \frac{\textit{pellter (m)}}{\textit{amser (s)}}$$

Cyfrifo cyflymiad (neu arafiad)

$$\textit{Cyflymiad (m/s}^2\textit{)} = \frac{\textit{newid mewn cyflymder (m/s)}}{\textit{amser (s)}}$$

Defnyddio graffiau cyflymder–amser.

Gellir cyfrifo'r **cyflymiad** neu'r arafiad drwy gyfrifo **graddiant y llinell**.



Gellir cyfrifo'r **pellter** a deithiwyd drwy gyfrifo'r **arwynebedd o dan linell y graff**.

Cyfanswm pellter stopio = **Pellter meddwl** + **Pellter brecio**



Pellter meddwl = **9m**

Pellter brecio = **14m**

I gar sy'n teithio 13.5m/s (30mya), **cyfanswm y pellter stopio yw 23m.**

Mae hyn yn dibynnu ar amser adweithio'r gyrrwr a dyma'r **pellter a deithiwyd rhwng gweld y perygl a brecio.**

Dyma'r **pellter mae'r car yn teithio tra'n brecio.**

Ffactorau sy'n effeithio ar y pellter	• Buanedd • Alcohol neu gyffuriau • Blinder • Ffonau symudol	• Buanedd • Amodau'r ffordd (e.e. glaw) • Màs y car • Cyflwr y breciau • Cyflwr y teiars